# Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 258 Pris £1 Mis Hydref 2023

## Eisteddfod y Cymoedd

**Nos Wener, Hydref 20fed**

**Dechrau am 5:00**

EISTEDDFOD CYMOEDD

### Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

Campws Y Gwyndy, Caerffili


Ar Gyfer Cynradd, Uwchradd ac Oedolion
Canu, Llefaru, Dawnsio, Llenyddol a Ffotograffiaeth

**Gwaith Cartref erbyn 2ail o Hydref**

*Stondinau nwyddau Cymreig*
*Bar diodydd alcoholig, te a choffi.*
*Sgrin yn y cyntedd yn dangos y rygbi*

**Dyddiad Cau Cofrestru:09.10.23 drwy ddolen y Wefan**
www.eisteddfodycymoedd@cymru
@eistycymoedd

## Dewch i Gefnogi




**PWYLLGOR a SWYDDOGION**

*Ariennir yn rhannol gan* ***Lywodraeth Cymru***

**Cadeirydd:** Robert Dutt

**Trysorydd: Meirion Powell:** mpowell0@yahoo.com

**Golygydd:** Ben Jones benamarycwmni@yahoo.com 02920 862428 07891916046

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920885151

**Golygydd Lluniau:** Mary Jones **Cynorthwy-ydd:** Jan Penney **Cofnodion:** Ann Lewis

**Gweplyfr/ Face book:** Papur Bro Cwmni **Y Pwyllgor:** Eirlys Thomas, Dilys Williams

**Gwefan:** Menter Iaith Sir Caerffili.cymru/ Cwmni

**e-bost**: Golygydd@papurcwmni.cymru/ benamarycwmni@yahoo.com

**Argraffir gan Tower Print, Bedwas**

# PIGION DYDDIADUR

## *Criw o Ferched Cwmalele, Cwm Rhymni  ar Daith i'r Ŵyl Ban Geltaidd yn Iwerddon*

- Gorfod newid fferi wrth i storm gyrraedd Cymru ac Iwerddon. Draw i Ddoc Penfro a chyfarfod aelodau "Paid Gofyn" ar eu taith i berfformio yn Carlow. Croesiad anodd, ambell un yn sal môr (heb enwi neb). Methu glanio yn Rosslaire am ddwy awr. Balch o gyrraedd yn saff.



- Masters house Castledermot. 6 milltir o Carlow ar yr afon Lerr. Abaty Franciscan ac ar draws heol yr eglwys Gatholig. Siarad gyda'r Tad Tom. Pentre hyfryd. Coffi yn y Mad Hatter, a siarad gyda James O'Gorman y cigydd am ei waith a chael cacenau am ddim oddi wrtho. Gweld bedd Vikings a dwy hen Groes Geltaidd yn y fynwent.
- Am dro i Abaty Duiske yn Graiguenamanagh (Pentre'r Mynaich). Abaty Sistersaidd fwyaf Iwerddon.
- Kilrea, Castell Kilrea1180 - coffi. Gwesty hyfryd a gerddi prydferth. Ducketts Grove, hen dŷ pwysig gyda gardd synhwyraidd. Castell Clonmore, y rhan fwyaf yn adfeilion.
Egwys gadeiriol Carlow, yr ail hynaf yn Iwerddon.
Cromlech Brownshill. Hŷn na Stonehenge a'r pyramids.
- Tafarn Yr Irishman, gyda grwp ukulele Carlow. Roedden nhw mor ddiolchgar am inni griw ukulele Cwmalele eu cefnogi. Fe  gawsom faner Pan Geltaidd ganddyn nhw.
- Tafarn Carpe Diem - gwrando ar fand o Gernyw Karrygi Du. Band a enillodd frwydr y bandiau y diwrnod canlynol. Scraggs Alley, cerddoriaeth Kernow.
Seven Oaks gyda'r nos i'r Noson Lawen. Dawnsio gwerin, côrau o bob man yng Nghymru ac un o Lundain.
- Yr Orymdaith trwy'r dre a gorffen yn y "Farchnad Datws". Band Symffonia Caerfyrddin yn chwarae yno, plant yn dawnsio dawnsiau Gwyddelig, pibau'r Alban, dawnswyr Llydaw a llawer mwy. Sgwrs, croeso a llun gyda Fintan Phelan, maer Carlow.
- Siop Fach yn y garej ar ein pwys ni a phrynu tocyn Irish Lottery. Nôl i godi beth enillon ni fore dydd Sadwrn cyn gadael. Croeso mawr ym mar Doyle's a chynnig dip defaid, 3 ceiniog yr un i ni.
- Rhaid dweud y cawsom groeso cynnes iawn oddi wrth ein cefndryd Celtaidd. Roedden nhw mor falch ein bod ni wedi ymuno gyda phob peth.
Mae dau ohonom nawr yn hoffi Guinness. Ddim am ddweud pwy. Y bobl yn y siopau a'r tafarndai yn hoffi clywed yr iaith Gymraeg.



*Yn Carlow. Tully's bar - gwrando ar Paid Gofyn.*

- Cyflwyno baneri Cymru i blant Carlow gael eu chwifio. Wynebau'r plant yn goleuo pan yn rhoi anrheg iddyn nhw. Tro nesaf mynd â mwy.

*Gina Cardwell*

# Llythyr gan Dr Elin Jones at Gadeirydd y Cyngor

Annwyl Gadeirydd,

Mae wedi bod yn bleser ac yn anrhydedd i gydweithio gyda'ch staff dros y blynyddoedd diwethaf i sicrhau bod cofebion teilwng yn cael eu codi i ddau o arwyr ein bro, sef Llywelyn Bren a Morgan Jones AS. Hoffwn longyfarch y cyngor ar ei weledigaeth a'i barodrwydd i ddathlu ein treftadaeth a'n hanes ni ein hunain.



*Hen Dŷ Cwrdd, Hengoed*

Bellach mae Cwricwlwm Cenedlaethol newydd gennym, ac mae pwyslais arbennig yn hwnnw ar *gynefin* y plant, sef yr ardal sy'n gyfarwydd iddynt. Bydd y cofebion newydd a godwyd yng Ngelligaer, Caerffili a Bargod yn gymorth i athrawon a disgyblion wrth iddynt fynd ati i ddarganfod mwy am hanes eu cynefin, a gobeithiaf y bydd y llyfr cartŵn ar Llywelyn Bren yn gwneud eu hanes yn hwyl hefyd.

Ond mae'r Cwricwlwm newydd hefyd yn gofyn i ysgolion gyflwyno hanes fel rhan o gwrs integredig yn y dyniaethau. Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn cynnwys disgyblaethau eraill hefyd, megis daearyddiaeth, cymdeithaseg - ac astudiaethau crefyddol. Ni fu'r pwnc olaf yn rhan o'r cwricwlwm erioed o'r blaen, ac mae ei asio i ofynion pynciau eraill y dyniaethau yn medru profi'n heriol.

Mae gennym adnoddau gwych ar gyfer hynny yn y fro hon. Mae eglwysi hynafol fel Bedwas, Bedwellte, Eglwysilan, Gelligaer, Machen a Mynyddislwyn yn tystio i'w lle canolog ym mywyd ein bro ers amser y Rhufeiniaid, a chyn hynny efallai hefyd. Mae llwch cenedlaethau dirifedi fu'n byw yn yr ardal hon yn gorffwys yn eu mynwentydd; mae eu ffenestri a'u cofebion yn adrodd hanes ein harweinwyr dros y canrifoedd, a'u hadeiladwaith eu hun yn tystio i fywyd yr ardal hon yn yr oesoedd a fu.



*Eglwys Gelligaer*

Ond mae gennym adeiladau eraill hefyd sy'n adlewyrchu hanes diweddar, a datblygiad y syniadau radical a heriol hynny a luniodd ein cymdeithas ddemocrataidd a'n Gwladwriaeth Les. Yn ein capeli llwm fel yr Hen Dŷ Cwrdd yn Hengoed a Chapel y Groes-wen yng Nghaerffili dysgodd pobl sut i gwestiynu anghyfiawnderau'r gyfundrefn oedd ohoni, sut i ddadlau, sut i amddiffyn egwyddorion megis cydraddoldeb a hawliau dynol. Dyma'r egwyddorion sy'n sylfaenol i ddatblygiad dinasyddion egwyddorol a gwybodus,sef un o brif ddibenion ein cwricwlwm newydd.

Rhyfedd yw meddwl bod £10miliwn o bunnoedd o arian cyhoeddus i'w wario ar gastell Caerffili, sydd, er ei faint, yn cynrychioli cyfnod cymharol fyr yn ein hanes, tra bod cyflwr eglwysi hynafol a chapeli pwysig ein hardal yn dirywio. Tybed a yw hi'n bosibl i chi fel awdurdod lleol ddynodi rhai o adeiladau crefyddol yr ardal yn safleoedd o bwysigrwydd hanesyddol i'r gymuned? Nid wyf yn gofyn i chi ddiogelu pob eglwys a chapel, ond i gydnabod cyfraniad y rhai sydd wedi chwarae rhan ganolog yn ein hanes dros gyfnod hir o amser.



*Mynwent y Groes-wen*

Byddai'n bosibl i gydweithio gyda'r cymdeithasau hanes lleol i benderfynu pa sefydliadau sydd o arwyddocâd arbennig. Yna, fe fyddai modd i ysgolion ganolbwyntio ar yr adeiladau hynny wrth gyflwyno gorffennol eu cynefin i'r disgyblion, a'r egwyddorion hynny sydd o hyd yn sylfaen i'n cymdeithas gyfoes.

Yn gywir iawn

Elin Jones

*Beth am i rai o'n darllenwyr ni i gefnogi blaengaredd Dr Elin drwy ysgrifennu gair a'i yrru at rai o Gadeiryddion ein Cynghorau? Gol.*

*Shwt ma'r ardd yn edrych?*

# Cwm Syfiog yw'n Cwm Ni

Yn ddiweddar fues i'n brolio'r "blodau siawns" yn fy ngardd, ac maen nhw'n dal i lonni fy llygaid a'm calon o hyd, er bod gwynt a glaw Medi stormus wedi effeithio arnynt erbyn hyn. Mae rhywbeth hyfryd yn eu parodrwydd i ymgartrefi yma, heb unrhyw gymorth gen i (na llawer o ofal, chwaith!)



Ond wrth i fi godi'r wynwns rai wythnosau'n ôl - cnwd eitha da, diolch - a dechrau chwynnu’r pridd o'u cwmpas, dyma fi'n sylwi ar blanhigyn bach newydd yn llechu yng nghysgod y wal. Meddyliais ar y dechrau taw crafanc orweddol (*creeping buttercup*) oedd hwn, gan fod hwnnw'n broblem yn y cornel cysgodol hwn o'r ardd. Ond o graffu arno'n fanylach, gwelais taw dieithryn arall i'w groesawu ydoedd: dyma *syfi,* sef yr enw ar fefus yn nhafodiaith ein cymoedd ni.

Mae'r ymwelydd newydd wedi bod wrthi'n blodeuo ac yn dwyn ffrwythau dros yr wythnosau canlynol, ac rwyf innau wedi bod allan yn y boreau yn casglu'r ffrwythau. Nid yw'n jobyn hir - tri neu bedwar sydd bob tro, a rheiny'n rhai digon bach hefyd. Nid ffrwythau mawr y fersiynau masnachol o fefus sydd yma, cofiwch, ond y ffrwythau bychan blasus hynny sy'n tyfu'n wyllt yn y cymoedd hyn. Cwm Syfïog yw'r enw gwreiddiol ar New Tredegar, wedi'r cyfan - ac mae rheswm dros hynny. Mae garddwyr proffesiynol wedi bod wrthi ers canrifoedd yn datblygu'r syfi bach diymhongar yn gewri coch persawrus, ond mae'r planhigyn gwreiddiol gennym o hyd, yn llechu ar lethrau'r tipiau gwastraff, mewn corneli hen waliau cerrig - ac yma, yn awr, yn fy ngardd i.



Ac wrth gwrs, rwy wedi ceisio tyfu'r rhain yn y gorffennol, ond heb lwc. Prynu planhigion iachus mefus y goedwig (*alpine strawberries*) mewn canolfan arddio, eu plannu yn y pridd cywir, eu tendio ac ati. Dim gwerth y drafferth! Cwpl o flodau, llai o ffrwythau, a rhoi'r gorau i fywyd oedd hanes pob planhigyn. Es i mor bell â phrynu potyn arbennig ar eu cyfer, a hynny hefyd yn hollol ofer.

Ond dyma nhw'n *dewis* dod ataf i nawr! Am fraint! Rwy newydd sylwi ar blanhigyn bach arall o syfi wrth fôn wal arall. Fe gaiff e a'i gyfaill ofal gen i o hyn ymlaen... os hynny yw'r dull gorau o'u tendio. Tybed ai peth call i'w wneud yw eu hanwybyddu'n llwyr a'u gadael i fynd neu i aros yn ôl eu dymuniad? Pethau gwyllt ydynt, wedi'r cyfan. Oes gan un arall o arddwyr brwd ein cwm ryw gyngor ar y ffordd orau o wneud i ymwelwyr o blanhigion deimlo'n gartrefol yn ein gerddi?






# Prifathrawiaeth Newydd, Bro Allta

Cafwyd croeso cynnes i gyfweliad â phedwerydd Pennaeth Ysgol Gymraeg Bro Allta gan i Meinir Jones ddilyn ôl traed Dafydd Idris Edwards, Eirlys Ashton a Delyth Williams i'r swydd. Nid wyneb anghyfarwydd oedd hi chwaith a hithau wedi ei phenodi i'r ysgol yn syth o'r coleg yn 1999. Wedi ymsefydlu yn athrawes ddosbarth, daeth yn ddirprwy bennaeth yn 2012 ac yn bennaeth dros dro yn 2020, cyn cyrraedd y brig yn bennaeth parhaol yn gynharach eleni.




Yn enedigol o Gapel Bangor, ger Aberystwyth, mynychodd Ysgol Gynradd Penllwyn cyn symud ymlaen i Benweddig yn ddiweddarach. Astudiodd Meinir yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, lle enillodd radd B.Ed. a chymhwyso i fod yn athrawes, gan arbenigo mewn Addysg Grefyddol. Roedd un myfyriwr yno eisoes, flwyddyn o flaen Meinir, ac yntau'n dilyn cwrs Theatr, Cerdd a'r Cyfryngau. Huw Euron (Jones) o Gaerffili oedd y myfyriwr hwnnw, wrth gwrs, ond nid yn unig y daeth e'n ŵr i Meinir ond rydym ni'n ddiolchgar iawn iddo gan iddo fod yn gyfrifol am ei dwyn hi atom ni yma i'r ardal hon.

Mae ein darllenwyr yn fwy na chyfarwydd â Huw, a fu ar un adeg yn ymddangos ar gyfres opera 'Pobol y Cwm'. Yn ogystal â pharhau gyda 'Only Men Aloud', mae ganddo ran hefyd yn y sioe 'Branwen' a fydd yn dod i Ganolfan y Mileniwm cyn bo hir. Parhau mae'r traddodiad cerddorol yn y teulu drwy i Osian sy'n ddeg a Steffan sy'n chwech oed brofi llwyddiant ar lwyfannau eisteddfodol ac Osian erbyn hyn yn aelod brwd o Adran Bro Taf yn ogystal â 'Only Kids Aloud'.

Sefydlwyd yr ysgol ddechrau'r nawdegau a bu tipyn o frwydr, ar un adeg, i newid ei henw o fod yn Ysgol Gymraeg Ystrad Mynach i ddod yn Ysgol Gymraeg Bro Allta. Dan arweinyddiaeth Meinir, ac eraill, mae'r ysgol wedi mynd o nerth i nerth. Ar hyn o bryd mae'r iard yn edrych yn debycach i iard adeiladwyr na hafan ar gyfer plant. Mae hyn oherwydd bod gwaith yn mynd yn ei flaen i godi adeilad dau lawr ar gyfer pedair ystafell ddosbarth arall. Bydd y rhain yn cymryd lle'r ddau derapin sydd wedi bod 'dros dro' am nifer o flynyddoedd. Bydd y ffaith bod gan yr adeilad ddau lawr yn golygu y bydd mwy o le ar yr iard i'r plant gael chwarae. Bydd y newidiadau yn gweld yr ysgol yn parhau gyda rhwng 290 a 305 o ddisgyblion, a rhaid cofio hefyd i'r ysgol ddatblygu o orfod rhannu peth o'r safle gyda'r ysgol gynradd Saesneg leol i fod yn ysgol gwbl Gymraeg. Bu tipyn o gamp cynnal y rhifau hyn o ystyried bod Ysgol Gymraeg arall yn Ystrad Mynach, sef Ysgol Penalltau.

Mae blaengaredd a gweledigaeth Meinir, ei staff a llywodraethwyr yr ysgol wedi sicrhau datblygiadau cyffroes. Cafwyd grant ar gyfer darparu ystafell at bwrpas Menter Iaith Sir Caerffili ymhlith datblygiadau eraill. Hefyd mae'r ysgol yn un o grŵp o bum Ysgol Gymraeg yn y sir, lle mae myfyrwyr o Goleg Metropolitan Caerdydd yn dod i ddysgu'r grefft o fod yn athrawon. Mae'n ddiddorol gwybod bod gan bob un o'r ysgolion hyn ei harbenigedd arbennig i'w gynnig i'r darpar athrawon.



Mae hon yn ysgol hapus a chartrefol iawn gyda chydbwysedd o athrawon ifanc a'r rhai llai ifanc, rhyw hanner ohonyn nhw wedi dod drwy gyfundrefn Ysgolion Cymraeg yr ardal hon o gymharu â nifer debyg o athrawon sy'n hanu o rannau eraill o Gymru. Maent yn llwyddo i gynnig ystod eang o weithgareddau gan gynnwys chwaraeon a chystadlu mewn amrywiol eisteddfodau gan gynnwys Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Mae Ysgol Gymraeg Bro Allta yn ysgol lwyddiannus sy'n cynnig profiadau diddorol i'r plant ac yn gosod safonau uchel. Caiff y plant gyfleoedd i ddatblygu yn eu ffurf unigryw eu hunain, boed hynny yn academaidd, yn gelfyddydol neu ar y maes chwarae. Gweledigaeth Meinir yw i sicrhau partneriaeth gadarn rhwng plant, rhieni, athrawon, llywodraethwyr a'r gymuned gyfan.

"Gweithio'n gytun er mwyn rhoi'r addysg orau i'n plant"

# Merched y Wawr

Cafwyd dechrau ardderchog i raglen 2023 - 24 pan ddaeth yr arlunydd Mary Jones atom i Ganolfan y Glowyr i siarad am y llun hyfryd o'i gwaith sy'n cael ei arddangos yng nghaffi'r ganolfan. Mae'r llun yn dangos nifer o chwedlau gwerin Cwm Rhymni ac fe'i comisiynwyd gan Ferched y Wawr ar gyfer eu pabell yn Eisteddfod yr Urdd Llancaiach yn 2015. Yn dilyn yr Eisteddfod, cyflwynwyd y llun i Ganolfan y Glowyr a oedd newydd agor ei drysau fel canolfan gymunedol i'r ardal. Gan fod llawer o waith atgyweirio i'w wneud yn adeilad y Glowyr, nid oedd modd arddangos y llun bryd hynny. Yn wir, bu'n rhaid aros tan fis Gorffennaf 2022 cyn gweld dadorchuddio swyddogol y triptych.



Soniodd Mary am gynllunio'r llun a sut yr aeth hi a Ben ar encil i'r Bala er mwyn cael llonydd i fynd ati gyda'r dasg! Cawsom weld y cynlluniau cyntaf mewn pensil a chlywsom sut y bu Mary yn astudio map o'r cwm ac yn meddwl yn ddyfal am arddull a natur y llun. Ei bwriad oedd creu llun a fyddai'n tynnu sylw am fod digon o ddigwydd a symud ynddo. Does dim dwywaith iddi lwyddo yn hyn o beth ac mae'r llun wedi denu llawer o sylw ac edmygedd ers ei hongian yn y Glowyr. Fe gymrodd y gwaith o gynllunio, paratoi a pheintio'r cynfas acrylig terfynol fisoedd lawer i'w gwblhau. Mae'n waith arbennig iawn ac yn sicr wrth fodd MyW a Chanolfan y Glowyr. Yn ogystal â'r triptych ei hun, paratowyd fersiynau ysgrifenedig syml o'r storiau unigol sydd hefyd yn dangos y darnau perthnasol o'r llun mawr - dyma gyfle gwych i blant y cwm gael darganfod rhan o'u treftadaeth.

Ond beth oedd ffynhonnell Mary wrth baratoi'r llun? Wel, mae traddodiad cryf o lên gwerin ac o astudio llên gwerin yn ein cwm ni. Yn y flwyddyn 1912, fe osodwyd tasg i fechgyn Ysgol Lewis gan eu hathro hanes, Tom Mathews. Roedd gofyn iddynt holi pobl eu hardal am chwedlau a phenillion gwerin a'u hysgrifennu i lawr yn Gymraeg. Roedd rhaid iddynt dderbyn y stori ar lafar, a doedd dim modd cyflwyno dim a gyfieithwyd o'r Saesneg. Canlyniad hyn oedd cyhoeddi'r llyfr Llên Gwerin Blaenau Rhymni yn 1912 a dilyniant, sef Dail y Gwanwyn yn 1916. Flynyddoedd mawr yn ddiweddarach,yng nghanol yr 1980au, comisiynwyd Richard Felstead i ysgrifennu casgliad arall o chwedlau o dan y teitl *Tales of the Rhymney Valley* ac fe ddanfonwyd copi i bob ysgol. Mae gennym le i ymfalchïo yn ein traddodiad gwerin yn yr ardal hon a braint fawr yw cael y llun o'r chwedlau yn ein canolfan gymunedol. Diolchwyd yn gynnes i Mary am gyflwyniad hynod ddiddorol.

Symudwyd ymlaen i gynnal Cyfarfod Blynyddol Cangen Cwm Rhymni. Mae rhaglen ddiddorol wedi ei pharatoi ar ein cyfer eleni ac mae pawb yn edrych ymlaen yn eiddgar. Gellir gweld y rhaglen yn rhifyn mis Medi Cwm*ni.*

*Ann Lewis*

Merched y Wawr Cwm Rhymni

## Noson yng Nghwmni Nerys Howell

Sefydlodd Cwmni Ymgynghoriaeth Bwyd Howell, sy'n Marchnata a hyrwyddo bwyd Cymru.

Festri Capel Bethel, Heol Nantgarw, Caerffili

Dydd Mercher, 18fed Hydref 7.00 o'r gloch

Croeso cynnes i aelodau hen a newydd a ffrindiau.

Mwy o wybodaeth gaynorw555@gmail.com

# Ysgolion Cymraeg – Cynnydd!

Er gwaethaf Brexit, Covid a'r argyfwng costau byw, pleser RhAG yw gallu cyhoeddi bod yna gynnydd pendant yn narpariaeth Ysgolion Cymraeg yma yn Sir Caerffili.

Y pleser mwyaf yw'r wybodaeth bod adeilad newydd ar gyfer Ysgol Cwm Gwyddon, Abercarn, bron a'i gwblhau.Bydd yr adeiladwyr yn trosglwyddo'r adeilad newydd i ofal yr awdurdod ar y 12fed o Hydref. Yna wedi gwyliau'r hanner tymor bydd y plant a'u hathrawon yn symud i mewn ar yr 8fed o Dachwedd. A bydd lle i 420 o blant yno. Mae'r adeilad presennol wedi bod yn rhy fach ers tro. Mae'r datblygiad newydd yn fodd o ddathlu llwyddiannau'r ysgol yma yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dymunwn bob hwyl iddynt.

Os oedd adeilad presennol Cwm Gwyddon yn anaddas, roedd safle Ysgol y Lawnt efallai yn fwy felly. Sefydlwyd ysgol ramadeg "The Lawn" flynyddoedd lawer yn ôl yn nhŷ un o reolwyr gweithfeydd y dref a symudodd honno oddi yno i'r adeilad ryw ddeng mlynedd ar hugain yn ôl.

Bellach mae'r awdurdod lleol yn cynnig adeiladu dwy ysgol newydd yn Rhymni. Y naill ar gyfer Ysgol Rhymni Uchaf a'r llall ar gyfer Y Lawnt. Y ddwy ysgol i rannu cyfleusterau cymunedol. Mae staff a llywodraethwyr yr ysgol yn ddigon bodlon â hyn ond mynegwyd amheuon gan eraill. Mewn cyfarfod o Fforwm Addysg y sir teimlai nifer bod galw am i Ysgol Gymraeg fod ar wahân er mwyn sicrhau Cymreictod y disgyblion. Hefyd, bod yr adeilad newydd yn bellach o ganol y dalgylch sy'n ymestyn lawr mor bell a Thredegar Newydd a Deri. Ond dywed swyddogion y sir nad oes tir ar gael mewn man mwy canolog. Does, chwaith, dim modd datblygu'r safle bresennol. Bu sôn am symud i adeilad yn rhan isaf tref Rhymni am fod niferoedd yno wedi gostwng ond wrth i'r rhifau godi drachefn bu'n rhaid anghofio'r syniad hwnnw. Ond, beth bynnag, mae'r cynlluniau o fewn y gylched ymgynghori gynnar.

Cafwyd ymrwymiad y byddai Ysgol Gymraeg yn dod ar gyfer ardal Bedwas, Tretomas a Machen ers bron i bum mlynedd bellach. Mae'r awdurdod wedi ymrwymo i'r ddarpariaeth yma ond, hyd yn hyn, methwyd dod o hyd i ddarn o dir addas.

Ynghyd â hyn i gyd mae yna un fenter newydd a chyffrous iawn. Faint o rieni sydd wedi gresynu peidio â gyrru eu plant i Ysgol Gymraeg a theimlo iddynt golli cyfle? Daeth ateb i'w problem eleni pan lansiwyd cyfleuster newydd wedi'i leoli yn Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod. Dan arweiniad Jamie Hallett dechreuwyd dosbarth 'Gwenllïan' yn yr ysgol. Cyfle yw hwn i gynnig trochiant i hwyrddyfodiaid i mewn i addysg cyfrwng Cymraeg. Wedi datrys nifer o broblemau, agorodd yr uned ei drysau ddechrau'r tymor hwn, gyda mwy o enwau na'r disgwyl yn dod i law. Trafnidiaeth oedd un o'r prif anawsterau.

Mae RhAG wedi llunio poster ar gyfer hyrwyddo'r fenter newydd hon a dangoswn ni hi ar y dudalen nesaf. Efallai y bydd rhai o'n darllenwyr yn gwybod am deuluoedd a fethodd, am amryw resymau, â dewis addysg cyfrwng Cymraeg pan oedd y plant yn dechrau'r ysgol. Os gwyddoch am rywun felly, efallai gallwch rannu'r newyddion da hyn gyda nhw. Hefyd, gallwn gynnig copïau o'r poster hwn i chi eu dosbarthu ond i chi gysylltu â'r Golygydd. (Mae fersiwn Saesneg ar gael hefyd, wrth gwrs.)

Mae'r amryw broblemau y mae'r wlad yn eu hwynebu yn sicr wedi arafu cynnydd ym mhob man ond, serch hynny, gwelwn y gwelliannau a'r ymestyniad hyn o addysg Gymraeg, er gwaetha'r ffaith bod lleihad yn nifer y babanod sy'n cael eu geni ar hyn o bryd.

*Y Golygydd*

Gwyliwch fi

# NID YW'N RHY HWYR I'CH PLENTYN FYND I YSGOL GYMRAEG!

## BYDD CEISIADAU...

...ar gyfer plant oedran ysgol gynradd hŷn a hoffai wella eu sgiliau Cymraeg yn gyflym er mwyn iddynt allu ymuno ag ysgol Gymraeg, yn cael eu croesawu!

- Efallai bod gennych chi blentyn iau sy'n gallu ymuno â'r blynyddoedd cynnar a hefyd plentyn hŷn mewn ysgol cyfrwng Saesneg neu
- Efallai eich bod yn symud i ardal newydd ac yn dymuno gwneud cais am ysgol Gymraeg i'ch plentyn y tro hwn.

## SUT MAENT YN DYSGU CYMRAEG MOR GYFLYM?

Mewn ysgol Gymraeg, mae'r iaith yn cael ei haddysgu yn y dull trochi, lle mae popeth yn cael ei wneud yn Gymraeg, nes bod modd defnyddio'r iaith ym mhob cyd-destun - fel y byddech yn defnyddio iaith eich cartref chi. Bydd dysgwyr hŷn yn cymryd rhan mewn sesiynau dwys ond hwyliog i gyrraedd y lefel hon. Mewn llawer o awdurdodau lleol ledled Cymru, mae gan ysgolion ganolfannau trochi hwyr ac athrawon fel rhan annatod o ddarpariaeth graidd yr ysgol ac maent yn cynnig y cymorth hwn i ddysgwyr hwyr. Rhoddir cefnogaeth ddilynol hefyd.

## SUT ALLA I GAEL MWY O WYBODAETH?

Gallwch gysylltu â'r canolfannau trochi hwyr drwy gysylltu â'ch awdurdod lleol i ofyn am leoliad y cymorth trochi hwyr yn eich ardal.

Cysylltwch â swyddogion RhAG am fwy o wybodaeth:
post@rhag.cymru

# Ysgol Gymraeg Trelyn

## Y Faner Werdd

Rydym ni yn Ysgol Gymraeg Trelyn yn falch iawn o allu dathlu parhad ein statws fel Ysgol Eco. Dechreuwyd y daith nol yn y flwyddyn 2001, ac ers hynny mae'r syniadau a'r moesau eco, wedi cael eu gwreiddio yn gadarn yn yr ysgol. Dros yr amser rydyn ni wedi dilyn nifer o brosiectau amrywiol megis bws cerdded, lleihau'r defnydd dwr yn yr ysgol, defnyddio'r ardal allanol fel ardaloedd dysgu a dros y blynyddoedd diwethaf gellir gweld plant yr ysgol yn casglu sbwriel o gwmpas yr ardal leol. Cafodd hwn effaith bositif a diolch byth mai lleihau gwnaeth y nifer o fagiau sbwriel a gasglwyd gan y plant.

Penodwyd Cyngor Eco, ac mae deuddeg o ddisgyblion yn cynrychioli'r ysgol. Cyfarfu'r cyngor yn hanner dymhorol, gan drafod materion a godwyd. Adroddir yn ôl wedyn mewn gwasanaeth, fel ein bod yn rhannu'r wybodaeth gyda phawb. Yn flynyddol mae yna dargedau i'w taro, a thystiolaeth i gasglu. Yn ystod Mis Gorffennaf cynhaliwyd cyfarfod gyda dau swyddog 'Cadw Cymru'n Daclus' a oedd yno i drafod, holi a gwrando ar gyflwyniad y Cyngor Eco. Dathlu oedd y canlyniad, a baner Werdd newydd yn cyhwfan uwchben yr ysgol.




## Abernant

Ym mis Mawrth fe deithiodd criw o flwyddyn 6 i wersyll Abernant am ddeuddydd o anturiaethau, heriau a lot o hwyl. Fel rhan o'r cwrs preswyl a oedd yn cynnwys wal ddringo, cwrs saethu reiffl, teithiau cerdded a gweithgareddau ar y llyn, fe ddatblygodd y disgyblion sgiliau gweithio fel tîm a dyfalbarhau wrth wynebu heriau. Cafwyd lawer o hwyl ar y llyn wrth i'r plant geisio cydweithio fel tîm i adeiladu rafft oedd yn gallu arnofi, cadw eu cydbwysedd ar fyrddau padlo a chwympo i mewn i'r dŵr os nad oeddent yn llwyddiannus. Er nad oedd y tywydd ar ein hochr ar gyfer y deuddydd, cytunodd y plant fod y profiad wedi bod yn un gwerthfawr a bythgofiadwy... a phwy all anghofio'r bwyd blasus oedd ar gael tair gwaith y dydd? Hoffem ddiolch yn fawr i staff Abernant am wneud y profiad yn un pleserus iawn i'r disgyblion.





## Celf a Chrefft

Bu plant CC2 wrth eu bodd yn dysgu sut i greu gwaith celf mosaic ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Cynefin oedd thema'r gwaith, felly ar ôl rhoi ystyriaeth i'r thema aeth y plant ati i fraslunio'u hoff syniadau.
Yna gyda chymorth fe dorron nhw deils i siapiau addas a'u gludo'n ofalus.
Cyflwynwyd dau ddarn o waith i'r gystadleuaeth ranbarthol. Bu dathlu mawr wrth i'r darnau ddod yn gyntaf ac ail.




## Chwaraeon

Cafwyd flwyddyn lwyddiannus iawn wrth gystadlu yn chwaraeon y sir. Rhown glod arbennig i Rhys a Nansi am ddod yn gyntaf yn rasys trawsgwlad Blwyddyn 5 a 6 y sir yn y Coed-duon llynedd.

Yn ogystal a hynny, cafwyd ddathlu mawr yng Nghanolfan Rhagoriaeth Ystrad Mynach yn ystod tymor yr Haf wrth i dim pel-droed yr ysgol ennill pencamprwiaeth pel-droed ysgolion sir Caerffili.



# Stwidio Deledu Boom Cymru

Cafodd ddisgyblion Blwyddyn 6 gyfle euraidd i deithio i stiwdio Boom Cymru yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf i gystadlu mewn rhaglen deledu newydd o'r enw Tekkers. Yn ystod y sesiwn ar brynhawn cynnes o haf, fe gystadlodd y disgyblion mewn amryw o dasgau pêl droed yn erbyn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof. Dangosodd yr holl blant eu gwybodaeth benigamp ar ffeithiau pêl droed, gyda'r tîm o bedwar oedd yn cystadlu i ennill pwyntiau yn dangos eu sgiliau driblo, cicio ac arbed y bel wrth wynebu rhwystrau. Hoffem ddiolch yn fawr i staff y stiwdio am roi croeso cynnes i ddisgyblion a staff Trelyn ar y diwrnod. Fe fydd y rhaglen yn cael ei darlledu mis Hydref …gwyliwch bryd hynny i weld os oedd Ysgol Gymraeg Trelyn yn fuddugol!





# Clybiau Ysgol

Rydym yn falch o gynnwys ystod eang o glybiau allgyrsiol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 1-6. Yn nhymor yr Hydref bydd cyfle i blant fynychu clwb côr, clwb digidol , clwb pêl-droed, clwb sgiliau bywyd a chlwb pêl-rwyd a ffitrwydd. Mae pob clwb yn cynnig cyfle i'n dysgwyr ddatblygu'n gorfforol a chymdeithasol gan fanteisio ar hybu'r iaith Gymraeg.





# Eisteddfod yr Urdd

Cafwyd ddiwrnod bendigedig yn Eisteddfod yr Urdd, Llanymddyfri ar ddiwedd mis Mai wrth i grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 4 – Blwyddyn 6 gystadlu yng nghystadleuaeth Cyflwyniad Theatrig o Sgript.

Roedd y profiad o ddiddanu'r gynulleidfa o'r llwyfan gyda goleuadau a system sain broffesiynol yn werthfawr iawn i'r plant.

Roeddwn yn falch iawn ohonynt wrth iddynt gyflwyno addasiad allan o 'Dosbarth Miss Prydderch a'r Dreigiau' gan Mererid Hopwood i'r gynulleidfa frwd. Daethant â cymeriadau Mrs Elias, Alfred, Elen a Sara-Gwen yn fyw ar y llwyfan wrth iddynt ddarganfod bod Molly ar goll!

Er bod gan gymeriad Mrs Elias hen arferiad anffodus o ddweud 'da iawn' drwy'r amser yn enwedig pan yn nerfus, ni ddangosodd y plant unrhyw fath o nerfusrwydd ar y llwyfan. Yn wir, roedd eu perfformiad yn well o lawer na 'da iawn'.

Eisteddfod SIR GAERFYRDDIN 2023








Dilynwch ni am fwy o hanes Ysgol Trelyn!

https://www.ysgolgymraegtrelyn.co.uk/

https://twitter.com/ygtrelyn

# Guto Nyth Brân

Tybed oes yna redwr i'w gymharu ag un o arwyr ein cenedl, un â chysylltiadau agos â'r ardal hon? Mae gorchestion Guto Nyth Brân yn gwbl anhygoel ac yma, yn ardal "Cwm*ni*", y cyflawnodd ei orchest olaf ac, efallai, yr un enwocaf.



*Copïwyd y llun o gywaith gan glwstwr Ysgolion Rhydfelen*

Un o ardal Pontypridd oedd Guto, neu i roi iddo ei enw cywir, Gruffydd Morgan. A chafodd ei adnabod fel Guto Nyth Brân am i'w deulu symud i fyw mewn fferm o'r enw Nyth Brân. Fe'i ganed tua'r flwyddyn 1700 a bu'n byw yn ardal Llanwynno sydd ar ben y mynydd rhwng Ynys y Bwl ger Pontypridd a Blaenllechau yn y Rhondda Fach.

Y stori fwyaf enwog amdano yw yr un am ei fam yn ei yrru i Aberdâr neu Lantrisant i nôl burum *(yeast)*. Dywedir y gallai rhedeg yno ac yn ôl cyn i'r tegell ferwi!

Dywedir stori arall amdano'n corlannu defaid ei dad ar ben y mynydd un diwrnod. Oherwydd ei gyflymdra neilltuol gallai'n hawdd rhedeg o gwmpas y praidd. Ond y diwrnod neilltuol hwn rhedodd a dal un o'r anifeiliaid ac wedi ei ddal, sylwi mai sgwarnog oedd y creadur! Dyna pam, efallai, y canwyd y pennill hwn amdano,

Ysgafndroed fel 'sgyfarnog,  
A chwim oedd Guto enwog –  
Yn wir, dywedir bod ei hynt  
Yn gynt na'r gwynt na'r hebog.

*I.D.Hooson*

Ond y cysylltiad sydd rhyngddo ag ardal "Cwm*ni"* yw iddo dderbyn her i rasio yn erbyn Sais o'r enw Prince. Roedd hon i fod yn ras o ddeuddeg milltir o Gasnewydd i eglwys Bedwas. Mae'r stori am y ras fel rhyw adlais o stori Aesop am y crwban a'r sgwarnog, oherwydd dywedir i Prince fynd ar y blaen ar ddechrau'r ras, tra bo Guto'n mynd yn ei flaen yn ling-di-long. Arhosai Guto i sgwrsio gyda rhai o'r bobl a ddaeth i'w wylio. Ac yn sicr, yn y Gymraeg byddai rhan fwyaf o'r sgwrsio wedi bod yr adeg honno.



Wrth i Guto ddechrau cymryd y ras o ddifrif, daeth yn agosach at y Sais gyda phob cam. Dywedir i gefnogwyr Prince, a fyddai'n betio'n drwm ar y ras mae'n siŵr, ddechrau taflu gwydr ar y llawr o flaen Guto.Ond neidio dros y gwydr wnaeth yr athletwr neilltuol hwn ac, wrth iddo basio Prince, gwahodd hwnnw i redeg yn gyflymach. Enillodd y ras drwy gyrraedd eglwys Bedwas mewn 53 munud.

Roedd un o'i gefnogwyr mor hapus o'i weld yn ennill, aeth i fyny ato a'i ganmol ar ei gefn yn rhy frwdfrydig. Roedd heb sylweddoli mor flinedig oedd ei arwr a bu'r ganmoliaeth yn angheuol, h.y. yn ddigon i'w ladd, gan i Guto syrthio'n farw o drawiad ar ei galon.

Cynhelir ras o hyd ar heolydd yn ardal Aberpennar ar Nos Galan (noson olaf y flwyddyn) i gofio am Guto. Hefyd, gwnaed casgliad ym mhlwyf Llanwynno flynyddoedd wedi'i farwolaeth, er mwyn sicrhau cofeb anrhydeddus i'r arwr cenedlaethol. Ewch i'w gweld.

# Colofn Y Siaradwyr Newydd

## Guto Nyth Brân

*Ann Lewis*

Cyn darllen cerdd y mis yma, edrychwch eto ar **Ein Hanes Ni 12,** ble mae stori'r rhedwr enwog o Lanwynno, Guto Nyth Bran. Guto oedd rhedwr cyflymaf ei ardal ac mae llawer o storiau diddorol amdano. Derbyniodd her i redeg ras yn erbyn dyn ar gefn ceffyl. Enillodd Guto'r ras ond roedd y straen yn ormod i'w galon a chwympodd yn farw ym mreichiau ei gariad ar ddiwedd y ras. Dyma ddarn o gerdd y bardd I D Hooson am Guto a'i ddiwedd trist. Mae ei fedd yn agos i ddrws eglwys Llanwynno - ydych chi wedi ei weld?

Mae mynwent yn Llanwynno
(Ni wn a fuost yno)
Lle rhoddwyd Guto o Nyth Brân
Dan raean man i huno.

Ysgafndroed fel 'sgyfarnog
A chwim oedd Guto enwog,
Yn wir, dywedir bod ei hynt
Yn gynt na'r gwynt na'r hebog.

Enillodd dlysau lawer;
Ond hyn sy'n drist, gwrandawer -
Fe aeth i'w fedd, gyflymed oedd,
Flynyddoedd cyn ei amser.

Ymryson wnaeth yn ffolog,
Gan herio march a'i farchog
I'w guro ef ar gyflym daith
Dros hirfaith gwrs blinderog.

*Wedyn daw disgrifiad manwl o'r ras, a Guto yn ennill.*


Ei riain a'i cofleidia
Gan guro'i gefn – ond gwelwa
Y llanc ar fron ei eneth lân
Ac yna'n druan trenga.

Cei ddarllen ar y beddfaen
Sydd uwch ei wely graean
Yr hanes trist, ac fel y'i caed
Yn gorff wrth draed ei riain.

Ac am ei roi i huno
Ym mynwent wen Llanwynno,
Rôl curo'r march, yn fawr ei barch
Mewn derw arch ac amdo.

Ac yno yn Llanwynno
Yr huna Guto eto;
Gyflymed oedd - ni all y llanc
Byth ddianc oddi yno.

*derbyniodd her : he accepted a challenge*   *yn ormod i'w galon : too much for his heart*   *ei fedd : his grave*
*mynwent : graveyard*   *graean : gravel*   *huno : to sleep*   *'sgyfarnog : hare*   *chwim : rapid*
*hebog : hawk*   *tlysau : prizes*   *gyflymed oedd : fast as he was*   *ymryson : to compete*
*march a'i farchog : a horse and his rider*   *ei riain : his girlfriend*   *cofleidio : to embrace*   *y llanc : the youth*
*trenga : he dies*   *beddfaen : gravestone*   *derw arch : an oak coffin*   *amdo : a shroud*



**CLWB CERDD CWM RHYMNI**
**Rhif Elusen: 1089092**

Dydd Sadwrn, 21ain o Hydref

2:30

Ysgol Lewis i Ferched, Ystrad Mynach

***Cerddorfa Siambr Gwent***

# Clwb Ieuenctid - a Mwy!




Mae Gwasanaeth Ieuenctid Caerffili yn y broses o drosi hen Glwb Golff Parc Virginia, sydd bellach wedi cau, i mewn i ganolfan drawiadol ar gyfer pobol ifanc. Bydd y gwasanaeth, drwy gysylltiadau anffurfiol a gwirfoddol, yn darparu gwasanaeth addysgol gwerthfawr ar gyfer pobol ifanc rhwng 11 a 25 oed.

Cyffrowyd chwilfrydedd "Cwm*ni*" am y prosiect pan gyhoeddwyd y byddai'r clwb ieuenctid Cymraeg, a gynhaliwyd yn Ysgol Gyfun y Gwyndy tan nawr, i gael lle yn yr adeilad newydd ei wedd.



Byddan nhw yno un noson yr wythnos a theimlir y bydd y bobol ifanc hyn yn gwerthfawrogi mwynhau'r cyfleusterau y tu allan i ffiniau'r ysgol. Hwn yw'r unig ddarpariaeth o'i fath yn y sir ar hyn o bryd ond mae'n debyg bod datblygiadau pellach ar y gweill.

Gweledigaeth Gwasanaeth Ieuenctid Sir Caerffili yw gwella bywydau pobl ifanc ar gyfer creu dyfodol mwy disglair ar eu cyfer. Gosodir y Cwricwlwm allan dan benawdau, megis Sgiliau Bywyd, Dinasyddiaeth, Iechyd a Lles, Hamdden a Chreadigrwydd.Mae Fforwm Ieuenctid ac Iau yn fodd o gyflawni'r amcanion hyn. Maen nhw hefyd yn anelu at osgoi digartrefedd, tra bod grŵp #GGNP - LHDTQ+ yn brosiect sy'n cefnogi pobl ifanc 11 - 25 oed sydd yn uniaethu â LHDTQ+.




Nod y prosiect Arloesi yw ymgysylltu a gweithio â phobl ifanc sydd wedi ymddieithrio o addysg ffurfiol ar hyn o bryd. Mae'r athrawon a'r Gweithwyr Ieuenctid proffesiynol yn cefnogi'r bobl ifanc drwy ddatblygu cynllun dysgu unigol wedi'i deilwra er mwyn eu helpu i gyrraedd eu llawn botensial.

Mae'r gwaith wedi bod yn mynd ymlaen nawr am agos i dair blynedd gyda Nikki Taylor a'i thîm yn gweithio llawer mwy na'r hyn y cânt eu cyflogi, er mwyn datblygu'r cyfleusterau trawiadol hyn. Mewn gwirionedd, bydd y prosiect yma gan Glwstwr De Caerffili yn dod yn laslun ar gyfer datblygiadau pellach yng Nghlystyrau De a Gogledd Sir Caerffili.



Mae'r cyfleusterau yn cynnwys ystafelloedd gweithgareddau, fel bwrdd pŵl a thennis bwrdd. Mae yna gegin â darpariaeth lawn ar gyfer galluogi pobol ifanc i ddysgu coginio a pharatoi bwyd. Hefyd mae yna olchdy yn atodol i'r ddarpariaeth yma. Ceir ystafelloedd ymlacio, lle mae bagiau ffa ar y llawr ac mae pob ystafell wedi'i henwi ar ôl nodweddion yng Nghaerffili, megis y castell, Morgan Jones ac ati. Mae'r holl gyfeiriadau hefyd yn ddwyieithog.Mae'r tîm prosiect yn llawn syniadau a phob amser yn chwilio am gyllid pellach, lle bydd Cyngor y Dref, Menter Iaith Caerffili, Bwrdd Cenedlaethol Ieuenctid ac eraill yn sicr o gynnig cefnogaeth. Er enghraifft, mae tir y tu allan i'r adeilad sy'n cynnig posibiliadau ar gyfer datblygiadau pellach. Ac, wrth gwrs, bydd croeso i wirfoddolwyr i weinyddu a helpu i ddatblygu'r prosiect cyffrous yma.

Wele'r tîm fydd yn arwain y ddarpariaeth ieuenctid yng Nghanolfan Ieuenctid Parc Virginia. O'r chwith i'r dde:
Nikki Taylor – Gweithwraig Ardal Gymunedol Addysg
Gemma Mark – Uwch-weithwraig Ieuenctid
Daniel Parker – Gweithiwr Ieuenctid

*Y Golygydd*

# Tri Chymeriad Rhymni

**Idris Davies**



Un o bobol mwya enwog Rhymni ydy'r bardd Idris Davies. Cafodd ei eni ym 1905 a siaradodd e ddim byd ond Cymraeg hyd at yr oed o bump neu chwech, pan aeth e i'r ysgol babanod. Yn bedair ar ddeg oed dechreuodd weithio ym mhwll glo McClaren yn Abertyswg. Bu e'n ddi-waith yn ystod streic 1926, ac ar ôl y streic astudiodd i fod yn athro, ac yn y diwedd cafodd e swydd fel athro yn Llundain. Dychwelodd i Gymru ym 1947 lle gafodd swydd fel athro yn ysgol gynradd Cwmsyfiog, ac yna bu'n byw yn Rhymni hyd ei farwolaeth ym 1953.

Mae ei farddoniaeth yn dangos caledi bywyd ym meysydd glo De Cymru a sut y dinistriwyd y dirwedd gan y diwydiannau haearn a glo. Mae'n debyg iawn i lyfr "Rape of the Fair Country" gan Alexander Cordell. Dwy o'i gerddi mwyaf adnabyddus ydy "I Was Born in Rhymney", a "The Bells of Rhymney".

**John D. Reese**

Un diddorol arall o Rymni oedd John D. Reese. Cafodd e ei nabod fel "Bone Setter Reese!" Ganwyd ef ym 1855. Bu farw ei dad yn fuan ar ôl ei eni a'i fam pan oedd yn ddeg. Felly, pan oedd e'n ddeg roedd e'n amddifad, a chymerwyd e i mewn gan Thomas Rocyn Jones a oedd yn gweithio yn y gwaith haearn fel "puddler". Roedd e'n enwog yn yr ardal am wneud "bone setting"a dysgodd e'r sgil i John.

Ymadawodd John am Pittsburgh yn Amerig yn 1887 pan oedd e'n 32 oed. Daeth e'n löwr ac ar ôl hynny gweithiodd mewn gwaith haearn yn Pittsburgh. Symudodd e i Youngstown, Ohio, lle bu'n trin llawer o'i gydweithwyr yn y gwaith haearn ac hefyd llawer o'i gymdogion fel "bone setter". Wedi hynny daeth llawer o chwaraewyr *baseball* ato am drinaeth. Cafodd lawer o wrthwynebiad gan y sefydliad meddygol yn yr ardal am nad oedd ganddo unrhyw gymwysterau ond, yn ychwanegol i'r chwaraewyr *baseball* enwog, daeth pobl enwog fel Gene Tunney, pencampwr pwysau trwm y byd ato. Hefyd daeth Yr Arlywydd Theodore Roosevelt, a Lloyd George. Yn 1926 fe'i hanrhydeddwyd gan yr Orsedd Americanaidd a daeth yn Dderwydd mewn seremoni yn Eisteddfod Youngstown. Bu farw yn 76 oed yn 1931.

*Gol: Dydy "bone setting" yn ddim byd i'w wneud ag esgyrn, mae'n trin straen mewn cyhyrau a thendonau. Teulu enwog arall o Rhymni ydy'r bonesetters Rocyn Jones, tad a mab a ddaeth yn enwog yn y proffesiwn meddygol, ac un hefyd yn llywydd Undeb Rygbi Cymru.*

**"Major William Martin"**

Yn 1943 cafodd corff "Major William Martin" ei ddarganfod ar draeth yn Sbaen, golchwyd e i mewn o'r môr gan y llanw. Roedd e'n gwisgo iwnifform y *Royal Marines* a gwybodaeth bersonol amdano, a hefyd *briefcase* yn cynnwys cynlluniau o oresgyniad y cynghreiriaid o Wlad Groeg a Sisili wedi'u cadwyno i'w arddwrn. Daeth pysgotwyr o Sbaen o hyd i'r corff a'i drosglwyddo i'r Almaenwyr. Penderfynodd yr Almaenwyr fod y wybodaeth yn ddilys a symudon nhw y mwyafrif o'u milwyr o Sbaen i baratoi am yr ymosodiad.

Ond nid oedd Major William Martin yn bod, ac roedd y wybodaeth ar y corff yn ffug. Corff Glyndwr Michael o Aberbargod oedd e, un a aeth i Lundain, lle bu farw yn berson digartref yn 1943.

Daeth *British Intelligence* lan gyda'r syniad o gorff *Royal Marine* yn cael ei ddarganfod yn y dŵr ar ôl damwain awyren. Un o bobl a feddyliodd am y syniad hwn oedd *Lieutenant Commander* Ian Fleming.

Dyna dipyn bach o hanes top cwm Rhymni.

*Malcolm David*




# Y Galeri

Cardiau, lluniau, cerfluniau, cardiau cyfarch, cardiau post, ffotograffau a chelfyddyd gain

**Mae "Cwm*ni*" ar werth yma**


Mae'r Galeri dan Caffi Vista Y Twyn, Caerffili

Kazev67@gmail.com

# Man Chwarae Unigryw

Mae fy atgofion am gwrt pêl-law Nelson yn mynd 'nol i'r 1930au a'r 1940au. Roeddwn i'n byw ym Margod a byddai Mam yn mynd â mi i weld teulu yn Aberfan, gan newid bws yn y pentref. Doeddwn i'n gwybod dim am y cwrt ar y pryd, ond mae e wedi aros yn y cof byth ers hynny. Tynnais y llun ohono dros ddeng mlynedd yn ôl, pan oedd fy ŵyr (a welir yma gyda'i dad) mewn ysgol gynradd yn Llundain. Ond yn ddiweddarach symudodd y teulu i Gaerffili a chafodd ef a'i chwaer addysg gyfrwng-Cymraeg yn Ysgol y Castell ac Ysgol Cwm Rhymni. Bydd y cyfarwydd yn gwybod mai hen lun yw hwn, oherwydd codwyd wal o flaen y cwrt yn 2011, ac arni res o deils sgwâr yn datgan mai 'HANDBALL COURT [a] CWRT PEL-LAW' sydd y tu ôl iddi.

Chwareir pêl-law â chledr y llaw gyda phêl galed. Y diben yw ei bwrw yn erbyn waliau'r cwrt, gan ei chadw allan o afael y gwrthwynebydd. Cysylltir y gêm yn draddodiadol â thafarnau a gamblo. Roedd hi'n boblogaidd gyda'r dosbarth gweithiol ym maes glo De Cymru.



Codwyd cwrt Nelson gan berchennog y Royal Oak tua 1860 i ddwyn cwsmeriaid oddi wrth dafarnau eraill y pentref, er bod sôn am y gêm yn cael ei chwarae yn gynharach yn iard y Nelson Inn (y Village Inn heddiw) naill ai yn erbyn wal y dafarn neu mewn cwrt pwrpasol (llai na'r un presennol) gerllaw. Bu Nelson yn ganolfan bwysig i bêl-law am weddill y ganrif a hyd at yr Ail Ryfel Byd, gyda thwrnameintiau yn parhau o Fai hyd Awst. Byddai chwaraewyr blaenllaw Cymru yn cystadlu, o flaen torfeydd niferus – gyda llawer o fetio!

Am y rhan fwyaf o'r ugeinfed ganrif ynyswyd cwrt Nelson oddi wrth rai eraill, a chyfyngwyd cystadlu am bencampwriaeth Cymru i chwaraewyr lleol. Ond cafodd adfywiad yn 1987 gyda sefydlu'r *Welsh Handball Association*. Y bwriad oedd sicrhau parhâd y gêm Gymreig a chydgordio cystadlaethau rhyngwladol. Daeth cynrychiolwyr o'r Iwerddon, Lloegr, Belg a hyd yn oed yr UDA i gymryd rhan yn Nhwrnamaint Pêl-law Un-wal Ewrop yn 1995 (gan ddefnyddio wal ganol y cwrt yn unig). Cynhaliwyd rhai o'r gemau yng Nghaerffili a Bargod. Daeth Lee Davies (o Nelson) yn bencampwr byd, yn ogystal â bod yn bencampwr Cymru gydol y 1990au.

Ymddangosodd y pennawd *'LS Lowry's napkin sketch of Nelson handball court fails to sell at auction'* yn y *Caerphilly Observer* ym mis Mai 2021. Yn ôl y nodiadau a wnaed gan gwmni Rogers Jones, yr arwerthwyr, mae'n debyg bod yr arlunydd enwog wedi tynnu sgets o'r cwrt ar serfiét mewn caffi, o bosib yn Nelson, yn 1961. Y tro diwethaf i'r sgets gael ei werthu, yn Ebrill 2016, aeth am £9,000. Methodd â chyrraedd y pris disgwyliedig (rhwng £8,000 a £12,000) yn 2021 ac fe'i tynnwyd o'r arwerthiant.

*Philip Lloyd*

## Safleoedd ar-lein a ddefnyddiais:-

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Coflein (yn cynnwys mesuriadau'r cwrt, gan y Comisiwn) Wikipedia

(Ond methais â chael cyfle i ddarllen llyfr H.J. Jones, *Nelson Handball Court, History of the Court and its Players.* Dywed un o'm ffynonellau fod copi yn Llyfrgell Caerffili. Ond rydw i'n byw yn Yr Wyddgrug, a doedd dim modd sicrhau copi o'r tu allan i'r cyfleusterau sy'n bodoli yn y gogledd.)

# Pobi Bara - 1

Prynais beiriant gwneud bara ar ddechrau'r cyfnod clo, wedi fy nghyfareddu gan ddisgrifiadau un o'm ffrindiau o roi toes i bobi dros nos a dihuno yn y bore i wynt bara ffres yn barod i'w fwyta. Felly, prynais y peiriant arbennig, ei roi yn ddiogel yn y cwpwrdd - a'i adael yno am ddwy flynedd.



*Dyma'r toes yn barod i fynd i mewn i'r ffwrn.*

Ond cwpl o fisoedd yn ôl, pan oeddwn yn methu â phrynu bara gwenith cyflawn da, penderfynais agor y cwpwrdd, agor y bocs, a dod â'r peiriant gwneud bara allan i olau dydd. Eisteddais i lawr i ddarllen y llyfryn o gyfarwyddiadau ddaeth gyda'r peiriant. Eitha peth i fi eistedd: roedd angen darllen manwl. Roedd yr holl beth yn gymhleth iawn, ac roedd yn rhaid dilyn y cyfarwyddiadau'n ofalus gan raglenni'r peiriant i wneud y math o fara oedd ei eisiau, am yr amser cywir, ar y gwres cywir - ac yn y blaen. Dyma fi wrthi'n pwyso a mesur, edrych ar y gwahanol fotymau a goleuadau ar y peiriant a mynd yn ôl ac ymlaen o'r peiriant i'r llyfryn. Ond yn y diwedd rhoddais y cyfan at ei gilydd, gwasgu'r botwm terfynol, ac eistedd i lawr unwaith eto - gyda dysglaid gref o de. Roedd y cyfan wedi bod yn llafur caled.

Ac mewn munud dechreuais amau fy ngallu i raglenni'r peiriant a chofiais hefyd fel yr oeddwn yn arfer â gwneud bara. Cofiais wedyn ei fod yn hawdd iawn i'w wneud - llawer yn haws na straffaglu gyda'r peiriant a'i ofynion manwl. Pa fath o dorth - os torth o gwbl – fyddai'n ymddangos yn y peiriant ar ddiwedd y dydd? Unwaith i fi orffen y ddysglaid, dyma fi'n mynd ati i wneud bara yn y ffordd draddodiadol - a syml!

Tra roedd y peiriant yn mynd trwy ei ddirgel brosesau, rhoddais 500g o flawd gwenith cyflawn mewn powlen fawr, a chymysgu un paced o furum powdwr gydag e. Mae angen blawd gwenith cyflawn ar y rysáit arbennig hwn, cofiwch. Wedyn, mesurais 200ml o ddŵr berw i jwg fesur ac ychwanegu llond llwy de o halen, llond llwy fwrdd o fêl a llond llwy fwrdd o olew blodau'r haul iddo. Unwaith mae'r rhain i gyd wedi toddi mewn i'r dŵr, ychwanegwch ddŵr oer i'r jwg nes bod gyda chi 350ml o ddŵr claear. Cymysgwch hwnnw gyda'r blawd a'r burum. Bydd angen cymysgu'r cyfan yn dda.



*......a dyma'r dorth wedi ei phobi.*

Gan fod y toes yn eitha gwlyb, weithiau mae'n haws ei gymysgu gyda llwy. Ie, rwy'n gwybod bod pawb yn meddwl bod angen tylino toes bara, ond dyma rysáit bara syml *iawn* - a chyflym hefyd. Unwaith bod y toes wedi ei gymysgu'n dda, arllwyswch e mewn i dun eitha mawr, wedi ei iro'n dda - a gofalwch iro pob cornel ohono: mae bara'n ludiog.

Wedyn - rhowch badell neu bowlen fwy dros y toes (neu dywel sychu llestri hyd yn oed). Mae angen rhoi rhyw awr (llai weithiau) i'r burum weithio, ac mae'n gweithio'n gyflymach o'i gadw'n dwym. Byddai'r burum yn gweithio petaech chi'n rhoi'r toes yn yr oergell, cofiwch - ond byddai rhaid aros dros nos i hynny ddigwydd. Dim ond gwres uchel sy'n lladd y burum unwaith iddo gael rhywfaint o siwgr (neu fêl) i'w fwydo a dŵr i'w ddeffro. Bydd angen twymo'r ffwrn felly i 220C (Nwy 7).

Erbyn i'r toes dyfu'n fwy o'i hanner yn y tun, mae'n amser i'w bobi. Felly, rhowch y tun bara mewn i'r ffwrn a'i adael yno am 40-45 munud. Croeso i chi i roi cip arno o bryd i'w gilydd, fydd hynny'n effeithio dim arno.

Ar ôl hanner awr, fe fydd gwynt hyfryd bara ffres yn llenwi'r gegin, ac ar ôl deugain munud (neu ychydig yn fwy), fe ddylai'r dorth fod yn barod. (Mae'n barod pan glywch sŵn cau pan fyddwch yn rhoi cnoc i waelod y tun: cewch wneud hynny fwy nag unwaith os ydych yn amau cyflwr y dorth. Does dim ots gan y bara!). Dewch â hi allan o'r ffwrn, ac ar ôl iddi oeri ychydig, tynnwch hi allan o'r tun a'i rhoi i oeri'n iawn. Cewch chi benderfynu pryd mae'n barod i'w thorri a'i bwyta!

Ac erbyn diwedd y diwrnod, pan arbrofais gyda'r peiriant bara, roedd dwy dorth dda ar ford y gegin. Ond roedd gwell gen i'r dorth hen-ffasiwn na thorth y peiriant - yn enwedig oherwydd i fi ddefnyddio tun bara fy hen fam-gu, tun a ddefnyddiwyd i wneud bara ganrif a hanner yn ôl...mae'r peiriant gwneud bara yn ôl yn y cwpwrdd!

# Colofn Dafydd Islwyn



Yn wythnosol bron dyfynnaf gwpled Ieuan Fardd (1731-88):

Y cyfaill gorau cofia
A lleufer dyn yw llyfr da.

Er mai brodor o blwy Lledrod, Ceredigion oedd mae gan fro fy mebyd afael arno hefyd. Bu sgweier plwy Pentraeth, Paul Panton (1727-97) yn gyfaill mawr iddo ac yn garedig iawn wrtho yn ystod blynyddoedd cythryblus olaf ei fywyd.

Yn ddiweddar, rydw i wedi codi nifer o lyfrau hen a newydd ac wedi dysgu llawer am ddiwylliant Cwm Rhymni am dros ganrif a hanner.

Codais y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940. Darllen am Sion Cent, un o Feirdd yr Uchelwyr a dysgu na wyddys dim am ei fywyd. Cofio wedyn i Tom Mathews a fu'n athro yn Ysgol Lewis, Pengam, dros ganrif yn ôl olygu cyfrol yn "Cyfres y Fil" O.M.Edwards am Sion Cent 1914. Ynddi dywedodd, "ganwyd y bardd tua 1323 ac yn ôl traddodiad yn Abertridwr, lle y dangosir yr ystafell y ganed ef ynddi". Yn ôl ysgolheigion heddiw yn y gyfrol "Apocryffa Sion Cent", 2004, nid oes modd rhoi coel ar sylwadau Tom Mathews. Oni welaf fy hun mewn rhai o linellau Sion Cent.

'Llwyd ei ben pan hen yw ei falchder
Llygaid briw heb liw heb "oleuni"
Lle'r dannedd yn "drylliog"
ac yn llwm ei groen.'

Gŵr arall a restraf ym mysg dynion adnabyddus bro fy mebyd ydy'r Parchedig Richard Owen y Diwygiwr (1839-87). Cyhoeddwyd ei gofiant yn 1889, ac ynddo mae'n dweud iddo ymweld â Rhymni - "..... a lleoedd cyfagos, Carno a Bryn Hyfryd drachefn yn niwedd Awst 1876 a chafwyd cyfarfodydd a nerthoedd y byd a ddaw ynddynt."

26 o Ragfyr 1864, Cadeiriwyd Cranogwen (1839-1916) am ei phryddest 'Pedr yn Nhŷ Cornelius' yn Eisteddfod Cymrodorion Rhymni. Y beirniad oedd Rhisiart Ddu o Wynedd. Ym mis Medi 1865 yn y Genedlaethol, Aberystwyth, enillodd wobr am ei cherdd 'Y Fodrwy Briodasol', y ferch gyntaf i ennill yn adran Llên y Genedlaethol. Merch ddi-briod oedd Cranogwen ar y pryd ac arhosodd yn ddi-briod ar hyd ei hoes. Yn y gyfrol yn y gyfres 'Dawn Dweud', Cranogwen 2023, crybwyllir y stori iddi ddyweddïo â Rhisiart Ddu o Wynedd. Pan fu farw Osian Gwent (1839-92), un o feirdd Rhymni, dywedwyd: "Hen lanc oedd efe ac yr oedd efe a Cranogwen yn gyfeillion mawr ac yr oedd llawer yn credu y buasent yn priodi ." Ond mae Jane Aaron yr awdur yn dweud yn bendant mai storïau rhamantus dychmygus oeddent.

Yn 1978 cyhoeddwyd 'Gŵr y Doniau Da', cofiant y Parchedig J.T.Roberts, Cerrig y Drudion, ardal Uwch Aled. Roedd ei fam yn chwaer ieuengaf y Parchedig Cadwaladr Tawelfryn Thomas (1856-39). Roedd ef yn fardd, awdur a gweinidog y Groes-wen. Pan oedd ef yng Ngholeg y Bala yr ychwanegodd yr enw Tawelfryn am fod yna fyfyriwr arall dan yr enw Cadwaladr yn y coleg. Disgrifiodd J.T.Roberts ei ewythr fel dyn diddorol dros ben, dyn mawr urddasol â phersonoliaeth nobl.

Yn 1980 cyhoeddwyd y gyfrol 'Awelon o Uwch Aled' a chawn ynddi wybodaeth am unig chwaer J.T.Roberts. Ym Mai 1887 ganwyd Lisabeth Margaret Roberts (Miss L.M.Roberts). Ar ôl treulio blwyddyn fel athrawes yn Sir Ddinbych cafodd swydd fel athrawes yn yr ysgol i Enethod yng Nghaerffili. Bu yno am chwe blynedd cyn cael ei phenodi yn brifathrawes Ysgol y Genethod yn Llanbradach. Dynes ddiwylliedig oedd hi a chofir hi fel un a fu'n ffrind agos â'r prifardd R.Williams Parry.

Yn gynharach eleni cyhoeddwyd y gyfrol 'Canrif yr Urdd' gan Myrddin ap Dafydd. Dywedir ynddi, "Gwelwyd arddangosfa Celf a Chrefft am y tro cyntaf yn Abertridwr." Yng Nghwm yr Aber y cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn 1955.

# Cystadleuaeth Côr Cymru 2024

Yn ddiweddar, cyhoeddodd S4C a chwmni teledu Rondo fanylion cystadleuaeth Côr Cymru 2024.

Dyma'r unfed tro ar ddeg i brif gystadleuaeth gorawl Cymru gael ei chynnal ac ers y cychwyn yn 2003 nod y gystadleuaeth yw cynnal a chodi safonau corawl Gwlad y Gân.

Mae 'na bump categori yn y gystadleuaeth – corau plant, corau ieuenctid, corau cymysg, corau lleisiau unfath a chorau sioe.  Bydd panel o feirniaid rhyngwladol yn dewis hyd at bedwar côr ymhob categori i berfformio yn y rowndiau cyn-derfynol ym mis Chwefror 2024.  Mae pob côr sy'n cyrraedd y rowndiau cyn-derfynol yn derbyn £500 gyda enillydd y categori yn ennill gwobr ychwanegol o £1,000.

Bydd y pump côr gorau o'r rowndiau cyn-derfynol, ym marn y beirniaid rhyngwladol, yn cael eu dewis i berfformio yn y ffeinal fawr ar Fai 12ed 2024 yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth ac yn fyw ar S4C. Yn ogystal â ennill teitl Côr Cymru 2024 mae gwobr ariannol o £4,000 i'r côr buddugol.  Bydd gwobr i'r arweinydd gorau a gwobr am y perfformiad gorau gan gôr na fydd yn cyrraedd y ffeinal.

Y cam cyntaf yw recordio sain y corau yn eu cynefin ddiwedd Tachwedd 2023 pan y bydd angen i'r corau berfformio rhaglen o 6-8 munud o gerddoriaeth.

"Mae'r gystadleuaeth hon yn un o gonglfeini digwyddiadau S4C ac yn un ry'n ni'n falch iawn ohoni," meddai Elen Rhys, Comisiynydd Adloniant S4C. "Mae'n llwyfan gwych i gorau Cymru ac mae'n beth braf gallu arddangos talentau corawl Cymru ar S4C."

Mae enillwyr y gorffennol yn cynnwys Côrdydd, Ysgol Gerdd Ceredigion, Cywair, Côr Heol y March, Serendipity, Côr y Wiber a Chôr Merched Sir Gâr.

Bydd y rowndiau cyn-derfynol a'r ffeinal yn cael eu darlledu ar S4C.

Mae'r dyddiad cau ym mis Hydref, felly ewch amdani gorau!

Gyda diolch,
Gwawr Owen (Cynhyrchydd)


Am fwy o wybodaeth ewch i www.s4c.cymru/corcymru  www.rondomedia.cymru/corcymru

## Colofn Dafydd Islwyn (Parhad)

Yn gynharach eleni cyhoeddwyd nofel Angharad Tomos, 'Arlwy'r Sêr', nofel y cefais flas mawr o'i darllen, nofel am fywyd a gwaith R.Silyn Roberts (1871-1930) a'i wraig Mary (1877-1972), cofiant a nofel afaelgar. Cymeriad amlwg yn y "stori garu ddifyr a hyfryd" ydy taid yr awdur David Thomas (1880-1967), cyfaill i'r ddau. Yn amlwg ym mywyd y ddau ers eu dyddiau yn byw yn Y Barri oedd Thomas Jones (1870-1955), y Gwas Sifil a'r Gweinyddwr dylanwadol o Rymni. Cyfeirir ato yn y nofel. R. Silyn Roberts oedd cadeirydd pwyllgor llên y Genedlaethol yn Y Barri 1921 a thrwyddo ef y sefydlwyd y Babell Lên gyntaf ar faes y Genedlaethol.  Cynigwyd ei galw yn Babell Silyn!

Llynedd cyhoeddwyd, 'Ystlum' cyfrol gyntaf o gerddi Elen Ifan, bardd a'i gwreiddiau'n ddwfn yn naear Rhymni. Cerdd delynegol, gwerth ei darllen, ydy "Cwrdd Ola' Moreia" - Cynhaliwyd gwasanaeth olaf Moreia Rhymni (A) ym mis Medi 2016. Bardd telynegol ei hawen, yn mynegi ei phrofiadau'n glir ydy Elen, ac felly yn cyfoethogi barddoniaeth Cwm Rhymni.


Menter Iaith Sir Caerffili
Hanner Tymor Hydref
Autumn Half term
Hydref 30 October
Sesiwn Coginio / Cooking Session
10:00 - 12:00
@ Cegin, Canolfan Y Glowyr, Caerffili
£5
Oed / Ages 7-11
Chwarae Bler Cynradd / Messy Play Primary kids
Thema Calan Gaeaf / Halloween Theme
13:00 - 14:30
@ Caffi, Canolfan Y Glowyr, Caerffili
£5
Oed / Ages 7-11
Hydref 31 October
Parti Calan Gaeaf / Halloween Party
dewch a pwmpen i gerfio / BYO pumpkin to carve
Peintio gwyneb a crefft / Face painting and crafts
10:00 - 12:00
@ LLEOLIAD IW GADARNHAU / LOCATION TO BE CONFIRMED
£5
I Bawb / For All
Gyda / with
Tachwedd 1 November
Sesiwn Lego / Lego Session
adeiladu castell Caerffili / Caerphilly Castle Build
10:00 - 13:00 @ Swyddfa Menter Caerffili Office, Aberbargod
£5
Oed / Ages 6+
I archebu lle / To book spaces
www.mentercaerffili.cymru


Menter Iaith Sir Caerffili
GWEITHGAREDDAU I OEDOLION
@CANOLFAN Y GLOWYR CAERFFILI
HYD 16 + 23 OCT
COGINIO HYDREFOL
6:30 - 8:30 PM £15
TACH 6 + 13 NOV
CREFFT CALIGRAPHY
6:30 - 8:30 PM £15
TACH 20 +27 NOV
COGINIO DANTEITHION NADOLIG
6:30 - 8:30 PM £15
RHAG 4 + 11 DEC
CREFFT NADOLIG
6:30 - 8:30 PM £15
I ARCHEBU LLE - TO BOOK A SPACE
WWW.MENTERCAERFFILI.CYMRU


Menter Iaith Sir Caerffili
TAITH SIOPA NADOLIG
I FFAIR BIRMINGHAM
TACHWEDD 18
CASGLU/PICK-UP:
8AM -GORSAF BWS CAERFFILI BUS STATION
8.15 - TESCO YSTRAD MYNACH
GADAEL/LEAVE @ 6:00PM
£12
I archebu sedd/ To book a seat
www.mentercaerffili.cymru
Menter Iaith Sir Caerffili
Rhif elusen gorestredig: 1105172 Rhif cwmni: 5096968
MENTRAU IAITH


Menter Iaith Sir Caerffili
CLWB CERDDED
10:00 - 12:00
Hydref 4 October 2023
Llwyn Hir, Rhydri - cwrdd yn y maes parcio a'r safle picnic
Meet at car park and picnic area
CF83 3EB
Hydref 11 October 2023
Ty Weindio Tredegar Newydd - Winding House New Tredegar
Cwrdd yn y maes parcio gyferbyn meet in car park opposite NP24 6EG
Hydref 18 October 2023
Parc Penallta- Cwrdd ym maes parcio Gorsaf Dren Hengoed
Meet in car park of Hengoed Train Station - CF82 7RA
Hydref 25 October 2023
Sirhowy - Cwrdd wrth dafarn Halfway House / Meet at the Halfway House Tavern - NP12 2HT
Tachwedd 1 November 2023
Bedwas - Cwrdd ym maes parcio Caffi'r Graig / Meet in car park of The Rock Cafe CF83 8EA
Tachwedd 8 November 2023
Rhydri -Cwrdd ym maes parcio Y Maenllwyd
Meet at The Maenllwyd Inn CF83 3EB*
*Cyfarfod trefnu teithiau nesaf ar y diwedd*
Rhaid gwisgo esgidiau cerdded addas
You must wear suitable footwear
Mwynhau'r Gymraeg
lowrijones@mentercaerffili.cymru
01443 820913
MENTRAU IAITH
Rhif elusen gorestredig: 1105172 Rhif cwmni: 5096968